

# Cynaliadwyedd

a chost byw bywyd cynaliadwy

Pa bethau sy'n atal pobl  
ifanc yng Nghymru rhag bod yn  
eco-gyfeillgar





PLANT YNG NGHYMRU  
CHILDREN IN WALES



FISHERFILM



# Ymchwilwyr Cymheiriaid

## Helô, Elizabeth ydw i,



Rydw i'n credu bod actifyddiaeth ac ymchwil am yr hinsawdd yn eithriadol o bwysig, yn enwedig o'u cyflwyno mewn ffordd sy'n cysylltu â phobl ifanc. Rydw i'n ddiolchgar iawn am y cyfle i fod yn rhan o'r prosiect yma; rwy'n credu bod e wedi fy helpu'n fawr i dyfu fel person. Mae hefyd wedi fy helpu i ddatblygu fy angerdd dros gymdeithaseg, pwnc rydw i bellach wedi dewis ei astudio ar gyfer lefel A (a gradd, gobeithio!)

## Helô, Zjack ydw i,



Rydw i'n angerddol ynghylch sut gallwn ni helpu'r ddaear, ac un ffordd yw defnyddio trafniadaeth gyhoeddus yn amlach. Rydw i'n mwynhau defnyddio trenau oherwydd mae gwybod mod i'n helpu'r Hinsawdd yn gwneud i mi deimlo'n dda. Fe ddes i'n Ymchwilydd Cyfoedion ar ôl mynd i Bangladesh, y wlad mae fy nheulu'n dod ohoni, a gweld y llygredd a'r holl wastraff. Ar ôl hynny, roeddwn i bob amser eisieu gwneud gwahaniaeth a helpu nid pobl Bangladesh yn unig, ond hefyd bobl y ddaear.

## Helô, Barnaby ydw i,



Fe wnes i ymuno â'r grŵp ymchwil cyfoedion oherwydd bod gen i ddiddordeb mawr mewn dysgu am waith ymchwil, ac roedd y grŵp yma'n rhoi cyfle i fi weithio gydag unigolion unfryd er mwyn rhannu gwybodaeth a chyfrannu at ein prosiect ymchwil. Rydw i'n wir wedi mwynhau gweithio ar y prosiect yma, ac yn gobeithio caf fi gyfle i wneud mwy yn y dyfodol.

## Helô, Harriet ydw i,



Fe wnes i ymuno â'r prosiect ymchwil cyfoedion er mwyn deall sut mae pobl ifanc yn gweld materion sy'n effeithio arnyn nhw nawr a'u dyfodol, i helpu pobl eraill i ddeall y pethau yma, a beth i'w wneud amdanyn nhw.

## Helô, Sienna ydw i,



Rydw i'n mwynhau Theatr Gerdd, y Celfyddydau, a phopeth sbŵci. Fe benderfynais i ymuno â'r prosiect ymchwil cyfoedion oherwydd mod i bob amser wedi teimlo'n angerddol wrth siarad a dysgu am y newid yn yr hinsawdd, ac roedd gen i ddiddordeb mewn dysgu beth oedd safbwyntiau pobl eraill. Trwy ddod yn rhan o'r grŵp yma roeddwn i'n teimlo o'r diwedd bod rhywun yn gwrando ar fy meddyliau am y newid yn yr hinsawdd. Roedd bod yn rhan o'r grŵp yma yn gymaint o help i'm hyder, ac rwy'n gobeithio yn ein hymdrechion i'r dyfodol bydd ein gwaith caled wedi talu ar ei ganfed!

## Helô, Arthur ydw i,



Fe wnes i fwynhau bod yn rhan o fisoedd cychwynnol y prosiect ymchwil gan gyfoedion yn fawr iawn. Ymunais â'r grŵp i ddatblygu fy sgiliau ymchwil a dysgu sut gall pobl ifanc ymgysylltu'n weithredol â gwaith ymchwil. Yn ystod y prosiect, fe wnes i ddod i ddeall mwy am y newid yn yr hinsawdd a chael cipolwg gwerthfawr ar effaith y cynnydd mewn costau byw. Rwy'n edrych ymlaen yn gyffrous at ddarllen yr adroddiad a gweld y canfyddiadau a ddaeth i'r amlwg yn sgîl casglu'r data.

## Helô, Cor ydw i,



Yn wreiddiol roeddwn i'n teimlo'n gryf ynghylch actifyddiaeth hinsawdd, ac rydw i bob amser wedi teimlo'n angerddol am fioamrywiaeth a chadwraeth, felly dyna pam gwnes i ymuno â'r grŵp ymchwil cyfoedion. Roeddwn i'n gwybod, oherwydd bod arweiniad ieuenctid cryf i'r prosiect, y byddwn i'n cael cyfle i sgwrsio â phobl ifanc eraill am y mater sy'n gymaint o ffocws i fi, a gwneud newidiadau gweithredol yn ein cymuned. Ers ymuno, rydw i wedi gallu ymgysylltu â phobl ar draws Cymru, ac mae'r gwaith ymchwil yma wedi golygu mod i'n deall llawer bellach am sut mae pobl eraill yn gweld argyfwng yr hinsawdd. Rydw i mor ddiolchgar am gael gweithio gyda phawb, felly diolch i bob un ddaeth i'r sesiynau ymchwil cyfoedion, a fu'n hwyluso ein prydau bwyd ac yn ein goruchwylio ni yn ystod y cyfnodau preswyl, a hefyd i'r holl bobl ifanc ddaeth i'r grwpiau ffocws; byddwn ni'n gwrando ar eich syniadau!

# Cynnwys

- 8 ..... Am y gwaith ymchwil yma
- 8 ..... Pwy ydyn ni?
- 9 ..... Beth wnaethon ni?
- 11 ..... Pam gwnaethon ni hyn?
- 11 ..... Sut gwnaethon ni hyn?
- 12 ..... Adolygiad o'r Llenyddiaeth
- 17 ..... Sut cawson ni bobl i gymryd rhan?
- 17 ..... Pwy fu'n cymryd rhan?
- 18 ..... Pwy atebodd ein harolwg?
- 22 ..... Sut gwnaethon ni'n siŵr bod pawb yn ddiogel
- 24 ..... Sut rhoeson ni'r atebion i gyd at ei gilydd
- 28 ..... Beth ddysgon ni
- 28 ..... Gofalu am ein planed
- 31 ..... Addysg
- 34 ..... Gweithredu Eco-gyfeillgar
- 34 ..... Beth wyt ti'n gwneud i fod yn eco-gyfeillgar?
- 40 ..... Trafnidiaeth
- 42 ..... Dewisiadau bwyd
- 43 ..... Ydy hi'n hawdd/pa mor hawdd yw bod yn eco-gyfeillgar?
- 46 ..... Beth allai dy helpu di i fod yn fwy eco-gyfeillgar?
- 49 ..... Pwy sy'n gyfrifol am yr amgylchedd, ac ydyn nhw'n gwrando ar bobl ifanc?
- 53 ..... Cyfryngau cymdeithasol
- 54 ..... Prosiectau lleol
- 55 ..... Rheoli Gwastraff, Ynni a chynnyrch Eco-gyfeillgar
- 55 ..... Rheoli Gwastraff
- 57 ..... Ynni
- 58 ..... Cynnyrch Eco-gyfeillgar
- 60 ..... Rhwystrau
- 64 ..... Beth rydyn ni'n meddwl - sut mae'r llenyddiaeth am rhwystrau yn cysylltu â'n gwaith ymchwil
- 65 ..... Arian
- 66 ..... Cyfoedion a theulu
- 66 ..... Ymddygiad a chyfleuster
- 67 ..... Agweddau a blaenoriaethau
- 69 ..... Ydy costau byw yn rhwystr?
- 71 ..... Casgliad
- 72 ..... Beth rydyn ni'n meddwl ddylai ddigwydd nesaf
- 75 ..... Beth rydyn ni'n meddwl oedd yn dda am ein gwaith ymchwil - ein cryfderau
- 76 ..... Sut gallai ein gwaith ymchwil fod yn well - ein cyfyngiadau
- 77 ..... Diolchiadau
- 78 ..... Atodiad

# Am y gwaith ymchwil yma

## Pwy ydyn ni?

Grŵp o 8 o bobl ifanc rhwng 13 ac 18 oed ydyn ni. Mae pawb ohonon ni'n aelodau o Cymru Ifanc, sy'n rhan o Plant yng Nghymru. Cychwynnodd y prosiect yma 18 mis yn ôl, felly roedden ni rhwng 11 ac 16 oed pan gychwynnodd e.

Elusen hawliau plant yw Plant yng Nghymru, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar faterion sy'n effeithio ar bobl ifanc/blant a CCUHP (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn).



## Beth wnaethon ni?

Roedden ni eisiau gwneud gwaith ymchwil ar faterion amgylcheddol. Fe dreulion ni amser hir yn trafod pa bwnc dylen ni ddewis, gan gynnig syniadau fel ymchwilio i'r plastig yn y cefnfor, ffasiwn ffwrdd â hi, tlodi ac ansawdd dŵr a systemau carthffosiaeth. Yn y pen draw fe benderfynon ni ar gynaliadwyedd a chost byw bywyd cynaliadwy yng Nghymru, a pha rwystrau oedd yn atal pobl ifanc rhag bod yn gynaliadwy.

Fe benderfynon ni ar ein teitl oherwydd ein bod ni'n teimlo bod hynny'n cwmpasu ystod eang o'n diddordebau a'n syniadau.

Yna fe ddechreuon ni gynllunio ein prosiect er mwyn gwneud cais am gyllid ychwanegol o'r **Gronfa Gwybodaeth Gymunedol**. Fe lunion ni linell amser bendant (er bod ni heb ei dilyn o gwbl yn nes ymlaen!) a pharatoi cynnig.



Gallwch chi ymweld â'u gwefan yma:  
[childreninwales.org.uk](http://childreninwales.org.uk)

Fe ddysgon ni hefyd am amrywiaeth mawr o ddulliau ymchwil fel data ansoddol o gymharu â data meintiol (yn y diwedd fe ddewison ni'r ddau ddull ymchwil), dadansoddi data, a sut i greu a gofyn cwestiynau diduedd.

**Pan oedden ni'n gwneud ein gwaith ymchwil, fe gawson ni lawer o deithiau a gweithgareddau hefyd.**

Aeth rhai o'r ymchwilwyr cymheiriaid i Glasgow ar y trê. Fe wnaethon ni gwrdd â nifer o grwpiau eraill tebyg o ran oed o'r Alban a Gogledd Iwerddon. Fe roeson ni gyflwyniad i ddangos i'r grwpiau ieuenctid eraill beth oedd testun yr ymchwil cymheiriaid roedden ni'n ei wneud, ac fe ddywedodd pawb ohonon ni o leiaf un peth am ein gwaith ymchwil a'n canfyddiadau. Fe wnaethon ni gyfnewid manylion cyswllt a chyfeiriadau e-bost; rydyn ni'n gobeithio gallu cwrdd eto i roi diweddariad iddyn nhw i gyd ar yr wybodaeth rydyn ni wedi'i chasglu.

Fe gawson ni gyfnod preswyl, lle buon ni'n aros mewn adeilad eco-gyfeillgar wrth i ni ddadansoddi ac ystyried sut i rannu ein gwaith ymchwil, ac fe fuon ni'n didoli ac yn creu themâu i'w cyhoeddi yn ein hadroddiad. Roedd y stafelloedd yn ddymunol dros ben, ond roedd y bwyd archebon ni i mewn yn stori wahanol!

Fe gawson ni nifer o gyfleoedd hyfforddi gyda **Maint Cymru** a **Chyngor Caerdydd**.

Ar hyd y gwaith ymchwil fe gawson ni lawer o wobrau fel **trampolinio ac ystafelloedd dianc**.

## Pam gwnaethon ni hyn?



Roedden ni eisiau gwneud gwahaniaeth gyda'n prosiect.



Roedden ni eisiau gwybod pa bethau sy'n eich rhwystro rhag bod yn eco-gyfeillgar, fel ein bod ni'n gallu gwneud diogelu ein planed yn haws i bobl.




Mae'n edrych fel bod pobl wedi astudio hyn trwy edrych ar ddata eilaidd, yn hytrach na siarad â phobl a gofyn eu barn. Ddaethon ni ddim o hyd i neb oedd yn edrych ar hyn o bersbectif person ifanc, nag o bersbectif Cymreig.

## Sut gwnaethon ni hyn?

**Fe ddechreuon ni astudio gwahanol ddulliau ymchwil a chynllunio'n prosiect.**

Aeth un o'r fîm i ddarganfod pa ymchwil oedd eisoes ar gael ar ein pwnc. Mae'r wybodaeth yn y tabl ar y dudalen ganlynol...



# Adolygiad o'r Llenyddiaeth

**“Cynaliadwyedd a chostau byw bywyd cynaliadwy. Pa rwystrau sy'n codi wrth geisio bod yn ecogyfeillgar, yn ôl cost, oedran, diwylliant a'r ardal o Gymru y mae pobl yn byw ynddi?”**

Rhai categorïau o **rwystrau** i fywyd cynaliadwy neu ecogyfeillgar ar gyfer pobl ifanc yn ogystal â'r cyhoedd cyffredinol:

## Seicolegol

Mae angen ysgogiad ar bobl ifanc i newid beth maen nhw'n ei wneud, yn enwedig pan fydd rhai mathau o ymddygiad yn gynhenid ynddynt ers eu plentyndod, er enghraifft, mae person ifanc sydd wedi tyfu i fyny mewn ardal lle mae sbwriela a thipio anghyfreithlon yn gyffredin yn fwy tebygol o ddatblygu'r arferion hyn eu hunain ac unwaith mae'r ymddygiad wedi gwreiddio, gall fod yn anodd ei newid.

## Technolegol

Gall bod heb fynediad at dechnoleg ecogyfeillgar neu'r newydd-bethau diweddaraf olygu bod gwneud newidiadau yn eu bywyd yn gallu bod yn heriol i bobl. Yn enwedig o ystyried bod y sylw i dechnolegau megis cerbydau trydan yn y cyfryngau yn creu'r argraff mai dyma'r unig ddewis i'r sawl sydd am fyw yn fwy cynaliadwy. Gallai hyn fod oherwydd costau, seilwaith neu ddaearyddiaeth.

## Addysgol

Mae gwybodaeth yn allweddol er mwyn gwneud dewisiadau cynaliadwy gan ei bod yn ysgogiad i newid ymddygiad ac yn gyfrwng i gyflawni'r nodau hyn. Mae angen i bobl ifanc ddeall arwyddocâd y newid yn yr hinsawdd a'r effaith y gallant ei chael, a chwalu mythau cyffredin er mwyn symud y sgwrs ymlaen.

## Hygyrchedd

Gwelir yn aml mai'r dewis lleiaf cynaliadwy yw'r un hawsaf a'i fod yn rhan annatod o'n bywyd pob dydd. Un enghraifft amlwg yw bod modd prynu poteli dŵr untro am gost isel iawn mewn unrhyw siop bron, sy'n golygu y byddai sawl un yn eu prynu o ran cyfleustra yn hytrach na chario potel ddŵr aml dro a chwilio am le i'w llenwi.

## Cost

Ar gyfartaledd, mae ffordd gynaliadwy o fyw, boed o ran cerbyd, defnyddio ynni neu ddewis bwyd, yn costio mwy na dewisiadau amgen llai ecogyfeillgar. Mae hynny'n golygu y byddai'n llai hwylus i bobl ar incwm is wneud y newid, a byddai'n rhaid iddynt feddwl yn fwy gofalus am y dewisiadau hyn ac edrych ar yr opsiynau. Heb gymorth a'r wybodaeth sydd ei hangen i gael mynediad i'r cymorth hwn byddai llawer o deuluoedd yn methu mabwysiadu ffordd gwbl gynaliadwy o fyw yn yr hinsawdd bresennol.

## Cyfeiriadau:

- **Psychological, Cultural, and Informational Barriers to Sustainability - Milbrath - 1995 - Journal of Social Issues**  
Wiley Online Library
- **Comment: A sustainable and equitable response to the cost-of-living crisis is urgently needed**  
PMC (nih.gov)
- **Climate Change**  
Bank of England
- **Climateflation: the long-term cost of burning fossil fuels**  
Positive Money
- **How is the cost of living crisis affecting net-zero policies?**  
Economics Observatory
- **Sustainability Barriers and Motivations in Higher Education - A Students' Perspective**  
Amfiteatru Economic
- **Sustainable Development in Higher Education: Current Practice and Future Developments**  
The Higher Education Academy
- **Policy Integration for Sustainable Development: Exploring Barriers to Renewable Energy Development in Post-devolution Wales**  
Journal of Environmental Policy & Planning: Vol 5, No 1

**Social Responsibility and Local Sustainable Development in Relation to the Perception of Daily Life in the Public and Private Sectors**

Technium Social Sciences Journal (techniumscience.com)

**Is walkability equitably distributed across socio-economic groups? – A spatial analysis for Lisbon metropolitan area**

ScienceDirect

**Can you afford to be green when you're not rich? I kept a diary to find out**

Life and style - The Guardian

**'It's just not tenable': cost of living crisis hits sustainability sector**

Small business | The Guardian

**Archwilio ecoagweddau ac ymddygiad prynu defnyddwyr facebook**

**To buy or not to buy green: the moderating role of price and availability of eco-friendly products on green purchase intention**

International Journal of Economics and Business Research (inderscienceonline.com)

**Asking The Participants: Students' Views on Their Environmental Attitudes, Behaviours, Motivators and Barriers**

Australian Journal of Environmental Education Cambridge Core

**'If I could afford an avocado every day': Income differences and ethical food consumption in a world of abundance**

Anna Sofia Salonen, 2023 (sagepub.com)

**Cost of living crisis: global impact and solutions**

World Economic Forum (weforum.org)

**The Cost of Living Crisis: An opportunity to move to sustainable lifestyles?**

The OECD Forum Network (oecd-forum.org)

**Barriers to consumer adoption of sustainable products – an empirical analysis**

Emerald Insight

**Benchmarking the barriers of sustainable consumer behaviour**

Emerald Insight

Daeth y canlynol i'r amlwg fel rhwystrau posibl y mae angen rhoi'r sylw pennaf iddynt: pris uchel, canfyddiad nad oes effaith ar yr amgylchedd, dim mantais o ran delwedd bersonol, llai o ddefnydd gan deulu a ffrindiau, diffyg ymwybyddiaeth o'r cynhyrchion ac ati.

**We need a 'Children's Rights Approach' to climate change**

Children's Legal Centre Wales (childrenslegalcentre.wales)

**Only half of young people able to identify correct definition of climate change**

UNICEF, Gallup UNICEF UK

Mae canlyniadau'r astudiaeth hon yn awgrymu bod rhwystrau megis bod yn llai parod i dalu, perfformiad gweithredol isel, nifer bach o gynhyrchion cynaliadwy ar gael ac anhawster integreiddio yn y ffordd arferol yn cael effaith negyddol ystadegol arwyddocaol ar fwriadau prynu cynaliadwy defnyddwyr.

**Rhwystrau**

Ni ellir cyffredinoli'r canfyddiadau oherwydd natur benodol y boblogaeth

Yr Unigolyn

Cyfrifoldeb

Ni chaiff yr ymddygiad hwn ei wobrwyo na'i gosbi

Diogi

Teimlo'n analluog

Ni welir cysylltiad rhwng problemau amgylcheddol lleol a byd-eang (cred = rhwystrau ideolegol)

Tanbriso ymddygiad

Pesimistaidd

Ymarferol

**Deall y Rhwystrau i Ymddygiad Ecogyfeillgar**

**Negeseuon allweddol**

- ★ Deall sut mae materion byd-eang yn ymwneud â'r unigolyn a'r newid yn yr hinsawdd (h.y. effaith datgoedwigo)
- ★ Teimlo'n analluog i wneud gwahaniaeth
- ★ Mynd ymhellach na rheoli gwastraff fel mater byd-eang
- ★ Mae materion pwysig eraill yn lleol yn bwysicach na phroblemau byd-eang sydd heb fod yn effeithio'n uniongyrchol arnyn nhw ar hyn o bryd. (gallai hyn fod yn gysylltiedig â phryderon ynghylch costau byw heddiw)
- ★ Gweld cynhesu byd-eang fel rhywbeth sy'n digwydd mewn manau eraill, nad yw'n effeithio arnyn nhw





## Fe ddefnyddion ni ddau fath creiddiol o ymchwil:

Arolwg a grwpiau ffocws gydag ystod oed amrywiol. Roedden ni eisiau ymgynghori â phobl o wahanol oedrannau er mwyn gwneud yn siŵr bod barn pobl ifanc o Gymru yn cael ei chynrychioli'n deg ac yn gywir.

Fe lansion ni'r arolwg gyda chyfuniad o gwestiynau ansoddol a meintiol, ac roedd ar agor rhwng Chwefror a Mawrth 2024.

Roedden ni hefyd eisiau pwysu a mesur barn pobl wyneb yn wyneb, felly fe gynhalion ni grwpiau ffocws gydag amrywiol bobl ifanc ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru, yn ogystal â grwpiau ieuenctid rhwng Ebrill a Mai 2024.

Yn ystod y grwpiau ffocws, i gasglu gwybodaeth ar gyfer yr ymchwil fe wnaethon ni ofyn llawer o gwestiynau, oedd i gyd yn rhoi cyfle i'r bobl ifanc gymryd rhan mewn gwahanol ffyrdd. Roedd modd rhoi ateb â sgiliau creadigol fel tynnu llun, defnyddio sticeri, neu ddefnyddio'r stafell o'u cwmpas i ddangos eu dealltwriaeth o drafferthion yr hinsawdd.



## Sut cawson ni bobl i gymryd rhan?

- Fe wnaethon ni dargedu pobl ifanc 7-18 oed oedd yn byw yng Nghymru i gymryd rhan.
- Roedd gennym ni ddwy fersiwn o'r arolwg, un ar gyfer pobl ifanc hŷn, ac un i blant iau.
- Fe wnaethon ni recriwtio pobl trwy ysgolion, grwpiau ieuenctid oedd yn cynnwys cynghorau ieuenctid, llyfrgelloedd, grwpiau astudio, grwpiau Sgowtiaid a Geidiau. Mae gennym ni lawer o gysylltiadau yn y manau hynny rhwngon ni fel pobl ifanc, a Plant yng Nghymru.
- Hefyd fe ddefnyddion ni'r cyfryngau cymdeithasol a hysbysebu ar-lein. Roedd gennym ni gyfeiriad e-bost i bobl gysylltu â ni.
- Roedden ni'n meddwl y gallai fod angen cefnogaeth ar rai pobl i ddarllen ac ysgrifennu, er enghraifft pobl â namau synhwyraidd neu anghenion ychwanegol. Fe wnaethon ni eu helpu i gymryd rhan trwy ddefnyddio dulliau creadigol a chynnig person i'w cefnogi tasen nhw'n dod i grŵp ffocws.
- Fe wnaethon ni ddefnyddio fideos ar gyfer ein holiadur ar-lein i'w gwneud yn haws eu defnyddio.
- Fe wnaethon ni gynhyrchu fideos a llunio poster recriwtio.

## Pwy fu'n cymryd rhan?

### Fe gawson ni gyfanswm o 816 o ymatebion i'n harolwg:


- Roedd cyfanswm o **816** o ymatebion ar draws y ddau arolwg
  - 451 hŷn a 365 iau
- O'r rheiny, roedd **100** o ymatebion yn **Gymraeg**
  - 87 iau ac 13 hŷn
- Roedd **pum** grŵp ffocws, gyda chyfanswm o **53** o bobl ifanc

# Pwy atebodd ein harolwg?

## Nodiadau am ddata'r arolwg

- O ran ardaloedd Cymru – fe fuon ni'n cymharu'r Gogledd, y Canolbarth, y Gorllewin a'r De, gan ddefnyddio categorïau [www.croesocymru.com](http://www.croesocymru.com).
- Mae rhai graffiau'n dangos canran o'r atebion.
- Yn achos y rhan fwyaf o'r cwestiynau, gallai pobl ddewis mwy nag un ateb – felly fydd y canrannau ddim yn creu cyfanswm o 100.
- Fe aeth pobl heibio i rai cwestiynau.

Dyma ragor o wybodaeth am y rhai fu'n cymryd rhan.



## Ethnigrwydd

Yn y fersiwn hŷn, roedd 80% o'r bobl yn ffitio i'r categori Gwyn. Yn y fersiwn iau, roedd hynny'n wir am 86%. Fe ddarganfuon ni fod hynny'n debyg i boblogaeth Cymru.

## Rhywedd


Yn ein fersiwn hŷn, rhoddodd rhyw 5% ateb heblaw gwryw neu benyw. Roedd hynny'n wir am ryw 2% yn y fersiwn iau. Atebodd ychydig mwy o ferched na bechgyn y fersiwn iau, ond roedd y rhaniad yn 50/50 yn y fersiwn hŷn. Doedd dim gwahaniaethau go iawn yn atebion pobl o ran rhywedd.



# Ardaloedd Cymru

Ar draws y ddau arolwg, cawsom o leiaf un ymateb gan bob awdurdod lleol.

Blaenau Gwent	13	Sir Fynwy	23
Pen-y-bont ar Ogwr	45	Castell-nedd Port Talbot	6
Caerffili	71	Casnewydd	45
Caerdydd	31	Sir Benfro	20
Sir Gaerfyrddin	15	Powys	91
Ceredigion	50	Rhondda Cynon Taf	7
Conwy	76	Abertawe	3
Sir Ddinbych	32	Torfaen	162
Sir y Fflint	73	Bro Morgannwg	1
Gwynedd	1	Wrecsam	2
Ynys Môn	37	Gwag	3
Merthyr Tydfil	2		



# Sut gwnaethon ni'n siŵr bod pawb yn ddiogel

**Fe wnaethon ni ddysgu am foeseg yn ein hyfforddiant, felly roedd gennym ni gynllun i gadw pawb yn ddiogel a gwneud yn siŵr bod ein hymchwil ddim yn achosi niwed i unrhyw un.**

- ▶ Fe drefnon ni wybodaeth a chydsyniad mewn fideo ar gyfer yr arolwg, ac esbonio hynny yn y grwpiau ffocws.
- ▶ Wnaethon ni ddim gofyn unrhyw gwestiynau sensitif, personol na rhai fyddai'n ypsetio pobl.
- ▶ Fe gawson ni hyfforddiant diogelu ar gyfer ein grŵp oed gan yr NSPCC.
- ▶ Roedd aelod o staff Plant yng Nghymru gyda ni bob amser wrth i ni weithio ar y prosiect.
- ▶ Yn y grwpiau ffocws roedd oedolyn roedd y plant yn nabod yn y stafell hefyd bob amser, ac roedden ni'n gwneud yn siŵr eu bod nhw'n gwybod gallen nhw siarad â nhw unrhyw bryd.
- ▶ Fe ddysgon ni am dueddiadau a beth i'w wneud tase pobl yn rhoi atebion doedden ni ddim yn cytuno â nhw.
- ▶ Fe geision ni ddefnyddio'r ymchwil i wneud gwahaniaeth cadarnhaol, trwy gyflwyno argymhellion ar gyfer dileu rhwystrau i fod yn eco-gyfeillgar, a rhoi llais i'r bobl oedd yn cymryd rhan.
- ▶ Fe ddysgon ni am gyfrinachedd a bod yn ddienw, a sicrhau ein bod ni ddim yn defnyddio enw neb wrth ochr eu sylwadau, ac yn cadw beth ddwedson nhw'n gyfrinachol. Doedd dim arwyddion bod unrhyw un mewn perygl.
- ▶ Fe wnaeth aelodau staff yn siŵr eu bod nhw'n trin yr wybodaeth yn briodol. Roedd yr holl wybodaeth yn cael ei storio ar gyfrifiaduron oedd yn cael eu diogelu â chyfrinair yn y swyddfa.
- ▶ Roedd unrhyw ddeunyddiau papur oedd yn cynnwys gwybodaeth fyddai'n fodd i adnabod rhywun yn cael eu sganio a'u dinistrio.



## Sut rhoeson ni'r atebion i gyd at ei gilydd

**Fe fuon ni'n dadansoddi'r data o'r arolygon a'r grwpiau ffocws. I wneud hynny fe rannon ni'r data yn wahanol categorïau i ddangos i ni beth roedd y bobl ifanc yn gwybod am yr argyfwng costau byw mewn perthynas â bod yn eco-gyfeillgar.**

Roedd meddalwedd yr arolwg yn creu graffiau i ni. Roedd hynny'n golygu ein bod ni'n gallu gweld canrannau'r bobl a atebodd mewn ffordd arbennig. Roedd gennym ni hefyd staff yn Plant yng Nghymru i'n helpu i ddarganfod oedd yna wahaniaethau yn ôl ble yng Nghymru roedd pobl yn byw neu bethau eraill fel eu rhywedd. Fe wnaethon nhw hefyd ein helpu ni i gyfuno'r data o'r ddau arolwg, yn ogystal â'r cwestiynau agored o'r arolwg, oherwydd bod cymaint o wybodaeth.

Ar gyfer y grwpiau ffocws fe wnaethon ni rywbeth o'r enw dadansoddiad thematig ar sail atebion pobl. Mae hynny'n golygu ein bod ni wedi darllen trwy bopeth ddywedodd pobl ac edrych ar y lluniau yn eu hatebion. Yna fe wnaethon ni lunio codau er mwyn eu rhoi mewn categorïau.

Fe wnaethon ni dorri atebion pobl allan a'u rhoi nhw o dan y codau. Yna fe wnaethon ni grwpio'r codau a thrafod gyda'n gilydd i ddewis themâu. Fe wnaeth rhai ohonon ni fwynhau hyn mwy nag eraill!



Daeth y themâu canlynol i'r amlwg o'r arolygon a'r grwpiau ffocws:



Gofalu am y blaned

Gweithredu Eco-gyfeillgar

Rheoli Gwastraff

Rhwystrau

Mae gennym ni hefyd rai is-themâu o dan y rhain, lle roedd llawer o wybodaeth am faterion penodol.



# Beth ddysgon ni


Yn yr adran yma byddwn ni'n cynnwys beth ddysgon ni o'r grwpiau ffocws a'r arolwg o dan ein pedair thema, yn eu tro. Mae gennym ni hefyd is-themâu o dan rai o'r rhain.

## Gofalu am ein planed

Yn ein gwaith ymchwil, dangosodd y rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc eu bod nhw'n gofalu am ein planed. Yn ein grwpiau ffocws fe dynnon nhw lawer o luniau o goed, anifeiliaid, yr awyr, y blaned a phlanhigion.

Roedden nhw eisiau gwneud yn siŵr ein bod ni'n diogelu byd natur.

Fe sonion nhw am stopio llygru'r cefnforoedd ac amddiffyn anifeiliaid y môr.



Dyma rai dyfyniadau o dan y thema hon:

“Bod yn garedig wrthi (y blaned) a'i pharchu”

“Mae angen i ni lanhau'r traethau.”

“Amddiffyn anifeiliaid sydd mewn perygl.”

“Dŵr llawer mwy glas... llai o anifeiliaid wedi marw allan” dyma beth ddywedodd rhywun wrth dynnu eu llun, ac roedden nhw'n cysylltu llygru'r cefnfor ag anifeiliaid yn marw allan.

“Y Ddaear yw'r unig blaned lle gallwn ni fyw, cadw'r Ddaear yn lân a rhoi cyfle i bobl anadlu.”

“Bydd fy myd i yn un lle dyw pobl ddim yn niweidio pethau”

Pan ofynnwn ni i bobl ifanc yn yr arolwg beth roedden nhw meddwl byddai person sy'n gofalu am y blaned yn gwneud, fe ddwedson nhw:



**Dydyn nhw ddim yn creu llygredd na gollwng sbwriel**



**Maen nhw'n helpu anifeiliaid**



**Maen nhw'n plannu coed/blodau/tyfu eu bwyd eu hunain**



**Maen nhw'n lleihau gwastraff bwyd**

Buon nhw'n siarad hefyd am ddefnyddio cynnyrch llesol i'r amgylchedd, ac rydyn ni'n edrych ar hynny mewn adran arall.

Yn yr arolwg roedd llawer o'r atebion penagored yn ymwneud â gofalu am natur a'r amgylchedd a dangos y gofal yna. Cododd geiriau fel **gofal, cariad, bod yn garedig** yn aml o dan y thema yma, yn arbennig gofalu am anifeiliaid.

Fe sonion nhw hefyd am fod yn ymwybodol o faterion eco-gyfeillgar a dylanwadu ar eraill i fod yn eco-gyfeillgar, er enghraifft, bod yn aelod o eco-bwyllgorau a mynd i brotestiadau.

**Dyma rai pethau ddywedodd pobl yn yr arolwg am beth gallai cymdeithas fod yn ei wneud:**



**Lleihau llygredd**



**Buddsoddi mewn tanwydd synthetig**



**Plannu coed**

## Addysg



Er bod gofal gan y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc am y blaned, a'u bod nhw eisiau ei diogelu, rydyn ni'n teimlo bod yr addysg mae rhai plant yn cael ar y pwnc yma yn gyfyngedig.

Soniodd rhai o'r plant hŷn yn y grŵp ffocws am 'ddiffyg addysg mewn ysgolion' a sut dydyn nhw ddim yn cael addysg fanwl am yr amgylchedd. Mynegodd y bobl ifanc awydd i ddysgu, ond oherwydd bod 'dim ots gan eu hysgolion', doedden nhw ddim yn cael cyfle.

Soniodd un person ifanc 'tase ganddyn nhw'r adnoddau' i fod yn eco-gyfeillgar, y byddai ganddyn nhw'r pŵer i wneud 'ysgolion a phopeth yn eco-gyfeillgar'. Gallai hynny ddangos i ni bod y person ifanc yma'n teimlo, er bod ganddyn nhw'r pŵer i wneud ysgolion yn gynaliadwy, bod y llywodraeth a'r rhai â'r pŵer a'r adnoddau ddim yn gwneud digon. Falle eu bod nhw'n teimlo bod ysgolion ddim yn cael digon o arian ar gyfer y gwaith yma.





**Mae hynny'n cysylltu â beth ddywedodd pobl yn ein harolwg, sef eu bod nhw'n meddwl y dylai fod mwy o addysg, ymwybyddiaeth, a gweithredu actif.**

Ein profiad ni o addysg yn y maes hwn yw ei fod yn ailadroddus. Mae'n aml yn trafod ailgylchu neu beillio yn unig.

Mae cyferbyniad yma â rhai atebion eraill, sy'n wahanol. Er enghraifft, pan ofynnion ni beth oedd pobl eisoes yn ei wneud i fod yn eco-gyfeillgar, yr ateb mwyaf poblogaidd oedd ymwneud â phrosiectau ysgol.

Soniodd llawer o bobl ifanc am eu hysgolion a pha mor eco-gyfeillgar ydyn nhw; buon nhw'n trafod plannu tatws a pherlysiâu, a sut maen nhw'n ailgylchu mewn ysgolion. Mae hynny'n cysylltu â'r ateb mwyaf poblogaidd yn yr arolwg ynghylch gwneud prosiectau ysgol eco-gyfeillgar.

Mae gan rai ohonon ni enghreifftiau da o'r addysg gawson ni, fel gwneud gwaith hunan-arweiniol ar brosiect neu gyflwyniad neu gynnal trafodaethau ar gloddio am lo neu ffermydd gwynt. Roedd gan rai ohonon ni erddi yn ein hysgol gynradd, lle gallen ni ddylunio a phlannu. Rydyn ni'n credu y dylai fod mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc ddysgu fel hyn.

Rydyn ni hefyd wedi sylwi ar y gwahaniaeth yn ein haddysg rhwng Ysgolion Cynradd ac Ysgolion Cyfun.

Rydyn ni'n cael yr argraff bod addysg yn y maes yma yn gymysg, ond at ei gilydd, nad yw'n cael blaenoriaeth. Rydyn ni'n meddwl y gallai dderbyn mwy o arian, ac y dylai fod mwy o amrywiaeth.

## Beth rydyn ni'n meddwl

Roedden nhw'n gadarnhaol am syniadau i'r dyfodol. Mae peth o'r wybodaeth am hyn o'r grŵp ffocws yn ifanc neu'n naif, heb lawer o ddyfnder. Mae awydd i'r blaned fod yn dda ac yn iach, sy'n addawol. Mae angen i addysg yn y maes yma gael mwy o flaenoriaeth a bod yn fwy cyson.



# Gweithredu Eco-gyfeillgar


Mae ein gwaith ymchwil yn dangos bod llawer o bobl ifanc eisoes yn gwneud pethau i fod yn eco-gyfeillgar yng Nghymru.

**Beth wyt ti'n gwneud i fod yn eco-gyfeillgar?**

Wrth edrych ar y gwahanol grwpiau oed, roedd yr atebion i'r cwestiwn yma yn debyg iawn ar draws y ddau arolwg.

**Ailgylchu oedd y peth mwyaf cyffredin ar draws y ddau**

81% i'r rhai hŷn  
66% i'r rhai iau



**Cerdded neu reidio beic oedd nesaf i'r ddau**

56% i'r rhai hŷn  
52% i'r rhai iau



**Defnyddio eco-gynnyrch**

42% i'r rhai hŷn  
33% i'r rhai iau




**Y prif wahaniaeth oedd trafndiaeth gyhoeddus**

34% i'r rhai hŷn  
11% i'r rhai iau


Rydyn ni'n meddwl bod llai o blant iau yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus o bosib oherwydd eu hoed. Fwy na thebyg maen nhw'n cael lifft gyda'u rhieni neu eu gwarcheidwaid i leoedd.

# Graffiau o'r adran flaenorol

## Y Fersiwn Hŷn



## Y Fersiwn Iau



# Cymharu ardaloedd

Wrth gymharu gwahanol ardaloedd yng Nghymru, mae llawer o bethau tebyg, a rhai gwahaniaethau diddorol:

Gogledd Cymru		Canolbarth Cymru	
Ailgylchu	71.49	Ailgylchu	73.76
Cerdded neu reidio beic	45.70	Cerdded neu reidio beic	59.57
Defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus	17.19	Defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus	20.56
Defnyddio cynnyrch eco-gyfeillgar	27.60	Defnyddio cynnyrch eco-gyfeillgar	35.46
Dydw i ddim yn gwneud unrhyw beth i fod yn eco-gyfeillgar	7.23	Dydw i ddim yn gwneud unrhyw beth i fod yn eco-gyfeillgar	4.96

Gorllewin Cymru		De Cymru	
Ailgylchu	71.42	Ailgylchu	77.5
Cerdded neu reidio beic	71.42	Cerdded neu reidio beic	54.25
Defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus	19.04	Defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus	28.25
Defnyddio cynnyrch eco-gyfeillgar	30.95	Defnyddio cynnyrch eco-gyfeillgar	44
Dydw i ddim yn gwneud unrhyw beth i fod yn eco-gyfeillgar	0	Dydw i ddim yn gwneud unrhyw beth i fod yn eco-gyfeillgar	5



At ei gilydd mae'r Gorllewin yn fwy eco-gyfeillgar (ddywedodd neb eu bod nhw'n gwneud dim i fod yn eco-gyfeillgar)



Dyweddodd mwy o bobl yn y Gorllewin eu bod yn cerdded neu'n reidio beic



Mae'r De yn defnyddio mwy o dtrafnidiaeth gyhoeddus



Mae'r De yn defnyddio mwy o gynnyrch eco-gyfeillgar

Un prif wahaniaeth oedd y defnydd cynyddol o drafnidiaeth gyhoeddus yn y De, rydyn ni'n meddwl y gallai hynny fod oherwydd bod mwy o gysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus yn Ne Cymru. Un gwahaniaeth amlwg arall yw bod neb yng Ngorllewin Cymru yn dweud eu bod nhw'n 'gwneud dim i fod yn eco-gyfeillgar', ac fe ddwedson nhw hefyd eu bod yn gwneud mwy o gerdded neu reidio beic nac ardaloedd eraill yng Nghymru.

Ar sail hyn rydyn ni'n meddwl y dylai cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus fod ar gael yn fwy cyffredinol ar draws Cymru, ac y dylai fod yn haws cael gafael ar gynnyrch eco-gyfeillgar, gan fod llai na 50% o'r ymatebwyr ar draws y wlad yn dweud eu bod yn eu defnyddio.

**Hefyd atebodd pobl y cwestiwn yma yn yr arolwg yn eu geiriau eu hunain, a dweud y pethau sy'n dilyn:**

**Cynlluniau ysgol**

(y nifer uchaf o ymatebion - 30)

**Codi sbwriel** (yr

aill ymateb uchaf - 24)

**Ailgylchu (11)**

**Banciau dillad (3)**

**Sefydliadau/  
cynlluniau (9)**

**Cerdded (2)**

**Plannu/  
garddio (7)**

**Helpu eraill/  
anifeiliaid (2)**

**Banciau bwyd** (yr  
ymateb isaf - 1)

## **Beth rydyn ni'n meddwl**

Mae'n galonogol iawn i ni bod cynifer o bobl yn dweud eu bod yn gwneud pethau eco-gyfeillgar. Roedd llawer o bobl ifanc yn meddwl am fod yn eco-gyfeillgar yng nghyd-destun eu haddysg, a soniodd llawer o bobl ifanc am wahanol gynlluniau ysgol; efallai bod hynny oherwydd mentrau Llywodraeth Cymru neu ein cynllun eco-ysgolion. Soniodd pobl ifanc yn aml hefyd am ailgylchu a rheoli gwastraff, rhywbeth arall rydyn ni'n gwybod sy'n aml yn cael sylw yn y system addysg. Rydyn ni'n meddwl mai rhai meysydd mae angen eu gwella yw dillad a garddio; mae angen i bobl ifanc wybod mwy am wahanol fentrau cynaliadwy fel gerddi cymunedol a sesiynau cyfnewid dillad, neu mae angen trefnu i'r pethau yna gael eu cynnal rywle sy'n hygyrch i bobl ifanc.

## Trafnidiaeth

Soniodd pobl ifanc yn ein grwpiau ffocws yn aml am ddefnyddio gwahanol fathau o drafnidiaeth. Defnyddion nhw amrywiaeth o gyfryngau i ddangos hyn; buon nhw'n tynnu llun beiciau, bysus a cheir trydan.

Roedd pwyslais mawr ar y defnydd o geir trydan, gyda llawer o bobl ifanc yn sôn bod ceir trydan yn well oherwydd eu bod nhw ddim yn defnyddio tanwydd ffosil. Ond soniodd un am y ffaith bod ceir trydan ddim yn arbennig o dda i'r amgylchedd oherwydd bod y batrïoedd yn wael. Mae hynny'n dangos ymwybyddiaeth o effeithiau niweidiol batrïoedd lithiwm-ion.

Soniodd llawer o bobl ifanc hefyd am gerdded a beicio i leoedd i leihau defnydd o danwydd ffosil a llygredd gan geir. Dywedodd ambell berson ifanc hefyd mai ceir yw'r dull trafndiaeth mwyaf cyfleus a'u bod yn defnyddio'r llwybr mwyaf eco-gyfeillgar ar Google maps wrth ddefnyddio'r car.



**Yn yr arolwg soniodd pobl ifanc am ddefnyddio dewisiadau heblaw ceir**

**Cerdded**

**Defnyddio trafndiaeth gyhoeddus**

**Beicio**

**Cerbydau trydan**



## Beth rydyn ni'n meddwl

Mae hyn yn awgrymu y byddai'n syniad da gwneud llwybrau cerdded cyhoeddus yn fwy diogel a hygyrch i bobl ifanc gymudo. Gallai hynny ddigwydd trwy greu llwybrau beicio, manau mwy diogel i groesi'r ffordd ac ardaloedd amgen, oddi ar y ffyrdd, i gerdded mewn ardaloedd mwy gwledig. Byddai hefyd yn fuddiol hybu defnyddio teithio gwyrdd ymhlith pobl ifanc trwy'r cyfryngau cymdeithasol neu'r system addysg. Gallai cystadlaethau hybu teithio llesol i fyfyrwyr ysgol gynradd fod yn ffordd fuddiol o ymgysylltu â phobl ifanc. Ffordd arall yw darparu mwy o wybodaeth i rieni, i roi sicrwydd iddyn nhw y bydd eu plentyn yn ddiogel wrth gymudo.

## Dewisiadau bwyd

Soniodd y bobl ifanc hefyd am fwyd, gyda llawer ohonynt yn cyfeirio at y label tractor coch neu'n dymuno y gallen nhw fod yn llysieuwyr neu seilio'u bwyd i gyd ar blanhigion i helpu'r blaned. Gall llawer o bobl ifanc deimlo bod y bwyd maen nhw'n ei fwyta allan o'u rheolaeth oherwydd nad nhw sy'n gyfrifol am brynu bwyd yn gyffredinol, ond er eu diffyg annibyniaeth yn hyn o beth, roedden nhw'n mynegi awydd i fwyta bwyd mwy eco-gyfeillgar. Soniodd pobl ifanc hefyd am dyfu eu bwyd eu hunain a defnyddio bin compost neu fwyd i 'ailgylchu' eu bwyd. Mae hynny'n dangos ymwybyddiaeth o effaith eu gweithredoedd ar y blaned.




## Ydy hi'n hawdd/pa mor hawdd yw bod yn eco-gyfeillgar?

### Cymhariaeth oed

Yn ein harolwg, fe ofynnwn ni i'r bobl ifanc hŷn pa mor hawdd oedd bod yn eco-gyfeillgar iddyn nhw. Fe wnaethon ni ofyn i'r plant iau oedden nhw'n cael bod yn eco-gyfeillgar yn hawdd. Atebodd dros 60% o'r ddau grŵp oed eu bod nhw'n ei gael yn hawdd.




y fersiwn hŷn



y fersiwm iau


## Cymharu ardaloedd

Ar draws pob oed roedd pobl yn y Canolbarth (74%) yn cael bod yn eco-gyfeillgar yn haws na'r ardaloedd eraill. Roedd y Gorllewin yn 67%, y Gogledd yn 62%, a'r De yn 62%.




Yn ein grwpiau ffocws fe ofynnion ni i blant a phobl ifanc **roi sgôr allan o 5 iddyn nhw eu hunain am fod yn eco-gyfeillgar**. Gallen nhw sgorio 0 os oedden nhw ddim yn eco-gyfeillgar o gwbl, a 5 am fod mor eco-gyfeillgar â phosib.

Ar sail hynny fe welson ni fod mwy o bobl yn rhoi sgôr o 3, yn y canol, iddyn nhw eu hunain. Mae gennym ni fwy o bobl yn sgorio 4 a 5 nag 1 a 2.



Gofynnion ni hefyd i blant a phobl ifanc pa sgôr bydden nhw'n rhoi i'w hunain tase bod yn eco-gyfeillgar yn haws.




Rydyn ni'n gallu gweld bod y sgôr yn newid petai pobl ifanc yn cael bod yn eco-gyfeillgar yn haws.

Dywedodd y rhan fwyaf o bobl eu bod nhw ddim yn arbennig o eco-gyfeillgar neu beidio, a dewis yr opsiwn yn y canol. Roedd hyn yn gyferbyniad â'r cwestiwn 'tase fe'n haws', lle dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc y bydden nhw'n eithriadol o eco-gyfeillgar. Mae hynny'n dangos bod pobl ifanc yn awyddus i fod yn eco-gyfeillgar, ond bod rhwystrau yn eu hatal rhag gwneud hynny.

Roedd lleiafrif o'r bobl ifanc yn aros ar 1, p'un a oedd ganddyn nhw adnoddau i fod yn eco-gyfeillgar neu beidio. O'r herwydd, rydyn ni'n meddwl bod angen gwneud mwy o ymchwil i ddarganfod sut mae gwneud pobl ifanc yn fwy angerddol ynghylch bod yn eco-gyfeillgar.


## Beth allai dy helpu di i fod yn fwy eco-gyfeillgar?



Yn yr arolwg ar gyfer pobl ifanc hŷn, yr ateb mwyaf cyffredin (62%) i helpu pobl i fod yn fwy eco-gyfeillgar oedd y gost. Ond roedd hynny'n ateb gan llai na chwarter yn yr arolwg iau.



Plant iau oedd fwyaf tebygol o ateb bod angen mwy o finiau ailgylchu arnon ni (54%). Roedd canran debyg o bobl ifanc hŷn hefyd yn meddwl bod hynny'n syniad da (44%).



Roedd **rhagor o eco-gynnyrch** hefyd yn ateb poblogaidd yn y ddau arolwg hŷn = 44% and iau = 34%

Pan ofynnwn ni gwestiwn penagored iddyn nhw am hyn yn yr arolwg, dyma'r atebion gawson ni:

- ▲ Trafnidiaeth gyhoeddus
- ▲ Addysg, ymwybyddiaeth ac actifyddiaeth
- ▲ Cynnyrch eco-gyfeillgar
- ▲ Newid ymddygiad sydd ddim yn eco-gyfeillgar, i'w wneud yn fwy eco-gyfeillgar, h.y. defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, peidio â gollwng sbwriel, meddwl am eich gweithredoedd, peidio â defnyddio tanwydd ffosil, peidio â defnyddio car, lleihau gwastraff, lleihau defnydd o drydan.

Fe edrychwn ni hefyd ar sut atebodd pobl o wahanol rannau o Gymru y cwestiwn yma:

Gogledd Cymru		Canolbarth Cymru	
Gwybodaeth a deall	32	Gwybodaeth a deall	42
Mwy o gynnyrch eco-gyfeillgar	31	Mwy o gynnyrch eco-gyfeillgar	42
Cynnyrch eco-gyfeillgar rhatach	40	Cynnyrch eco-gyfeillgar rhatach	40
Ailgylchu mwy hwylus	28	Ailgylchu mwy hwylus	57
Trafnidiaeth gyhoeddus well	59	Trafnidiaeth gyhoeddus well	43
Gorllewin Cymru		De Cymru	
Gwybodaeth a deall	41	Gwybodaeth a deall	39
Mwy o gynnyrch eco-gyfeillgar	36	Mwy o gynnyrch eco-gyfeillgar	45
Cynnyrch eco-gyfeillgar rhatach	36	Cynnyrch eco-gyfeillgar rhatach	51
Ailgylchu mwy hwylus	52	Ailgylchu mwy hwylus	57
Trafnidiaeth gyhoeddus well	43	Trafnidiaeth gyhoeddus well	77



## Pwy sy'n gyfrifol am yr amgylchedd, ac ydyn nhw'n gwrando ar bobl ifanc?

Yn **Ne Cymru** roedd pobl ifanc yn fwy tebygol nag yn yr ardaloedd eraill o ateb bod angen gwell trafnidiaeth gyhoeddus arnon ni.

Roedd dros 50% o bobl ifanc ar draws Cymru, **ac eithrio yn y Gogledd**, yn meddwl y dylen ni gael mynediad mwy hwylus at ailgylchu.

Mae dros 30% o bobl ym **mhob ardal** yn meddwl dylen ni gael cynnyrch eco-gyfeillgar rhatach.

Yn ein grwpiau ffocws fe wnaeth llawer o'r bobl ifanc rannu syniadau ar gyfer gweithredu allai helpu i greu byd mwy eco-gyfeillgar. Roedd rhai o'r cysyniadau braidd yn naïf, gyda phlant iau yn awgrymu ein bod ni'n 'gwladychu'r blaned Mawrth' ac **yn rhoi pobl oedd ddim yn tyfu eu bwyd eu hunain yn y carchar**.

Roedd rhai o'r syniadau'n fwy realistig, **'ymgyrchoedd yn dangos i chi sut i helpu'**, **'llai o ffasiwn ffwrdd â hi'** ac **'amddiffyn cenedlaethau'r dyfodol – peidio â gwneud yr un camgymeriadau'**. Soniodd llawer o bobl ifanc hefyd am godi sbwriel yn eu cymunedau a'u hysgolion, a dewis opsiynau cynaliadwy ar gyfer trafnidiaeth a defnyddio ynni.

Yn ein harolwg roedden ni hefyd eisiau gwybod pwy roedd pobl ifanc yn meddwl oedd yn gyfrifol am yr amgylchedd.

## Cwestiynau oedd yn cael eu gofyn yn y fersiwn hŷn yn unig

### Pwy sy'n fwyaf cyfrifol?

39% y cyhoedd • 33% y Llywodraeth • 10% cwmnïau

Cwmnïau	47	Y cyhoedd	174
Y Llywodraeth	148	Arall	73

### Wyt ti'n teimlo dan bwysau?

21% ydw • 45% nac ydw • 32% dwy ddim yn gwybod

Ydw 97 | nac ydw 202 | dwy ddim yn gwybod 142

Ar sail yr ymchwil yma mae'n amlwg bod niferoedd tebyg o bobl yn meddwl bod **cyfrifoldeb ar y cyhoedd a'r llywodraeth i gynnal yr amgylchedd**. O ganlyniad, rydyn ni'n awgrymu dull gweithredu unedig trwy roi gwybod i'r cyhoedd am ddeddfwriaeth a sicrhau bod pawb yn ymwneud â hyn.

Dyw'r rhan fwyaf o bobl ifanc ddim yn teimlo unrhyw bwysau i fod yn eco-gyfeillgar, ac fe allai hynny fod o fudd oherwydd eu bod o bosib ddim yn pryderu ynghylch eu hymdrechion gan eu bod eisoes yn teimlo eu bod yn gwneud digon. Ond fe allai hyn awgrymu hefyd bod hyn ddim yn ddigon pwysig i rai pobl ifanc fod yn pryderu.

Mae'r bobl ifanc yn teimlo bod gan y cyhoedd a'r llywodraeth lefel uchel o gyfrifoldeb i ofalu am yr amgylchedd.

Cyfeiriwyd at y llywodraeth droeon gan bobl ifanc yn ein grwpiau ffocws, **gan sôn yn benodol am y ffaith mai arian oedd yn bwysig iddyn nhw**, yn hytrach na phobl ifanc a'r amgylchedd:

"Rwy'n teimlo dylai'r llywodraeth stopio meddwl cymaint am arian a dechrau gwranddo ar bobl."

"ddylai'r llywodraeth ddim meddwl cymaint am arian."

Mae hyn yn dangos bod pobl ifanc yn teimlo bod ganddyn nhw ddim dylanwad ar y llywodraeth a bod y **bobl sydd â phŵer ddim yn gwneud digon dros yr amgylchedd**. Fe sonion nhw hefyd am sut rydyn ni'n dibynnu llawer ar y llywodraeth a'n bod efallai'n disgwyl iddyn nhw 'sortio fe' i ni.

## Gwranddo ar bobl ifanc

Cododd llawer o bobl ifanc y ffaith bod **llawer o bobl ddim eisiau derbyn cyfrifoldeb am argyfwng yr hinsawdd**, ac eisiau ei adael e i'r genhedlaeth nesa:

"Dyw pobl ddim yn teimlo mai eu problem nhw yw hi, maen nhw'n ei gadael i'r genhedlaeth nesa."

Fe sonion nhw fod hyn ddim o bwys i lawer o'r bobl sydd â phŵer oherwydd  
"Fydda i ddim yma pan fydd yn digwydd."

Gallai hyn ddangos bod pobl ifanc yn teimlo bod **y rhai sydd mewn pŵer yn ddi-hid ynghylch argyfwng yr hinsawdd** oherwydd na fyddan nhw yma i deimlo effeithiau eu gweithredoedd. Dywedodd un person ifanc:

"Mae rhaid i chi wneud y newidiadau i'ch byd."

Mae hyn yn dangos eu bod yn teimlo rhywfaint o gyfrifoldeb am y blaned ac yn meddwl bod angen iddyn nhw weithredu i'w diogelu.

Soniodd pobl ifanc am sut maen nhw'n canfod eu 'llais'. Dywedson nhw fod **'Pobl ddim yn gwrando, maen nhw'n taflu sbwriel ar y llawr',** a **'does dim byd yn digwydd pan fydd y materion yma'n cael eu codi'**. Roedd rhai pobl yn meddwl y byddai'n well i'r blaned petai yna ddim pobl.

Mae hyn yn dangos bod pobl ifanc yn teimlo eu bod nhw ddim yn cael eu gwrando ynghylch materion amgylcheddol, ac er gwaethaf yr ymgyrchoedd yn gofyn i bobl i beidio â gollwng sbwriel/ystyried yr amgylchedd, bod llawer o bobl yn dal ddim yn gwrando. Dywedodd un person ifanc eu bod nhw'n meddwl y dylai **'Pobl ifanc gael eu cefnogi i drafod materion eco-gyfeillgar'**; dywedodd un arall fod **'neb yn well, felly mae gan bawb hawl i siarad'**

### Yn yr arolwg soniodd pobl am newidiadau i'r system – e.e.



Mae angen i'r llywodraeth wneud mwy, er enghraifft hwyluso mynediad at gynnyrch eco-gyfeillgar



Gormod o drachwant a llygredd corfforaethol



Mae angen i gwmnïau wneud mwy a dylen nhw gael eu galw i gyfri – dirwyo cwmnïau os nad ydyn nhw'n eco-gyfeillgar



Mae angen i agweddau newid

## Cyfryngau cymdeithasol

Yn ein harolwg, atebodd rhai pobl eu bod eisiau gweld mwy o ymwybyddiaeth:

- ▲ Hybu bod yn eco-gyfeillgar
- ▲ Codi ymwybyddiaeth, e.e.

### Posterï

### Cyfryngau cymdeithasol

### Ymgyrchoedd



Yn ein grwpiau ffocws, soniodd pobl ifanc yn ogystal am y cyfryngau cymdeithasol; maen nhw'n gallu bod yn offeryn defnyddiol, ond hefyd yn gallu **'gorddweud ar-lein'**.



Dywedodd pobl wrthyn ni fod angen i sêr a busnesau fod yn fwy ymwybodol o'u hól troed carbon – mae angen i bobl ifanc gael oedolion sy'n esiampl well o ymddygiad.



Ar y llaw arall, teimlai un person ifanc fod materion eco-gyfeillgar yn cael gormod o sylw.



Dywedodd rhai pobl yn yr arolwg fod angen i ni sicrhau bod pobl yn dweud y gwir am y mater yma.

## Beth rydyn ni'n meddwl

Mae hyn yn golygu bod pobl ifanc yn ymwybodol o wendidau'r cyfryngau cymdeithasol, **yn deall bod dim modd trystio popeth sydd ar-lein,** a bod angen iddyn nhw farnu a gwneud ymchwil i weld ydy rhywbeth yn wir, ond maen nhw hefyd yn sylweddoli bod y cyfryngau cymdeithasol yn gallu bod yn offeryn defnyddiol i addysgu pobl a lledaenu ymwybyddiaeth.

**Gallai fod rhai pobl ifanc hefyd sydd ddim yn credu bod newid yn yr hinsawdd.**

## Prosiectau lleol

Soniodd y bobl ifanc hefyd am sut mae ‘**prosiectau fel hyn yn ysbrydoli’r gymuned**’, ac y byddai mwy o brosiectau o fudd i’r gymuned a’n cymdeithas. Mae hyn yn dweud wrthyn ni bod y bobl ifanc yn teimlo y byddai **mwy o brosiectau amgylcheddol o fudd i’w hardal leol**. Sonion nhw hefyd am yr angen i gymdeithas fod yn gyfrifol am ei gweithredoedd.



## Rheoli Gwastraff, Ynni a chynnyrch Eco-gyfeillgar

### Rheoli Gwastraff

Ailgylchu oedd â’r côd mwyaf, ac yma cawson ni’r nifer mwyaf o ymatebion yn y grwpiau ffocws a’r arolygon. Fel llawer o’r themâu eraill roedd yr ymatebion yn debyg iawn i’w gilydd.

Yn y grwpiau ffocws roedd cyfuniad o adborth cadarnhaol a negyddol ar hyn, er bod y bobl ifanc yn awgrymu atebion.

Fe ddefnyddion nhw’r geiriau “**aildefnyddio**” ac “**ailgylchu**” droeon. Y dylen ni ddefnyddio’r biniau cywir ac aildefnyddio hen ddillad/dillad ail law/defnyddio compost a chodi sbwriel. Dywedodd rhai hefyd bethau fel, “**weithiau dwy ddim yn ailgylchu**”.

Mae’r rhan fwyaf o bobl ifanc yn erbyn gollwng sbwriel ac yn meddwl dylen ni fod yn cynnal mwy o sesiynau codi sbwriel.



“Rwy’n gwneud llawer o bethau i fod yn eco-gyfeillgar ond weithiau dwy ddim yn ailgylchu”.

“Mae pobl yn meddwl bod gollwng sbwriel yn cŵl... pan fydd un person yn gwneud maen nhw’n rhoi pwysau cyfoedion ar [berson] arall... ac yna mae mwy o bobl yn rhoi pwysau cyfoedion ar bawb i wneud hynny”

“dim mwy o fêpiau untro”

Yn yr arolwg dywedodd pobl y dylen ni leihau sbwriel a hybu ailgylchu, gan roi rhai enghreifftiau:

- ▲ Mwy o finiau a phobl yn rhoi sbwriel yn y biniau
- ▲ Codi sbwriel mewn cymunedau/sefydlu grwpiau
- ▲ Lleihau plastig (pecynnu)
- ▲ Defnyddio mwy o gynnyrch mae modd eu hailgylchu
- ▲ Mwy o gynnyrch mae modd eu hailddefnyddio
- ▲ Cynllun dychwelyd poteli
- ▲ Angen gwaredu sbwriel mewn ffyrdd gwell


Mae pwyslais ar ailgylchu, a rheswm posib am hynny fyddai oherwydd ei fod yn hawdd.

## Ynni

Yn y côd “ynni” mae llawer o sôn am ynni gwyrdd (tyrbinau gwynt/solar etc) ac y gallai fod angen i ni stopio defnyddio tanwydd ffosil, ond maen nhw’n gwybod bod hynny’n anodd.

“Weithiau rydw i’n anghofio diffodd y golau yn fy stafell”

“defnyddio mwy o baneli solar, mwy o ynni pŵer gwynt, mwy o ynni pŵer dŵr”.



## Cynnyrch Eco-gyfeillgar

Yn ôl yr arolwg, mae 42% o'r bobl ifanc hŷn a 33% o'r bobl ifanc iau eisoes yn defnyddio eco-gynnyrch.

Dywedson nhw hefyd eu bod nhw eisiau rhagor o eco-gynnyrch, gyda 44% o'r bobl ifanc hŷn a 34% o'r bobl ifanc iau yn ateb fel hyn.

Pan ofynnon ni gwestiwn penagored yn yr arolwg, atebodd pobl fel hyn am gynnyrch eco-gyfeillgar:

- gwneud nhw'n rhatach
- labelu cliriach
- mwy o gynnyrch eco-gyfeillgar
- mae angen i gynnyrch eco-gyfeillgar (fel bagiau papur) fod yn gryfach, yn fwy cyfleus, ar gael yn fwy hwylus, ac yn fwy fforddiadwy
- Llai o ffasiwn ffwrdd â hi

Mae dros 30% o'r bobl a atebodd yr arolwg ym mhob rhan o Gymru yn meddwl y dylai cynnyrch eco-gyfeillgar rhatach fod ar gael i ni.

Fe ddwedson nhw hefyd fod angen i'r Llywodraeth wneud mwy, er enghraifft hwyluso mynediad at gynnyrch eco-gyfeillgar.


## Beth rydyn ni'n meddwl

Roedd ymatebion cymysg ar thema rheoli gwastraff ac roedd llawer o sylwadau negyddol a chadarnhaol. Ond wrth drafod gollwng sbwriel ac ynni roedd mwy o ymatebion am bobl ifanc yn anghofio, sy'n cysylltu â thema Rhwystrau.

Mae pobl ifanc eisiau cael hyd i ateb i danwydd ffosil trwy ddefnyddio llai o geir a llygryddion tanwydd ffosil. Dywedodd pobl ifanc "ddylen ni ddim bod yn llygru, os ydyn ni eisiau byw" ac fe ddywedson nhw hefyd fod "bod yn eco-gyfeillgar yn golygu helpu'r ddaear yn erbyn llygredd."

Mae yna ddyfyniad lle mae'r person ifanc yn dweud eu bod nhw weithiau ddim yn ailgylchu. Gallai hynny fod am sawl rheswm, fel diogi neu ddiffyg mynediad.

Mae pobl eisiau gwell mynediad at gynnyrch eco-gyfeillgar. Mae labelu, pecynnu a chost yn faterion pwysig mae angen eu hystyried mewn perthynas â hyn.



# Rhwystrau

Fe ofynnwn ni i blant a phobl ifanc am y rhwystrau sy'n eu hwynebu wrth fod yn eco-gyfeillgar.

Yn ein grwpiau ffocws, fe ddarganfuon ni fod eu hamgylchedd yn dylanwadu ar bobl ifanc, ac yn effeithio ar ba mor eco-gyfeillgar ydyn nhw.

Isod mae'r gwahanol bethau welson ni oedd yn dylanwadu ar ymddygiad eco-gyfeillgar plant a phobl ifanc.

## Agwedd rhieni/gofalwyr



## Systemau cred



## Pwysau cyfoedion



Diffyg Gwybodaeth



Cyfryngau cymdeithasol



Cost





## Beth rydyn ni'n meddwl

### Sut mae'r llenyddiaeth am rwystrau yn cysylltu â'n gwaith ymchwil

Soniodd ymchwil Arthur ar sail yr adolygiad o'r llenyddiaeth am y ffaith bod pobl ifanc yn fwy tebygol o ollwng sbwriel neu beidio â gofalu am yr amgylchedd yng nghwmni pobl debyg, hynny yw pobl sy'n gollwng sbwriel. Mae hyn i'w weld yn ein gwaith ymchwil yn yr is-adran cyfoedion a theulu, a soniodd pobl ifanc llawer am sut mae dewisiadau pobl eraill yn effeithio ar eu bywydau.

Roedd ei ymchwil hefyd yn cwmpasu'r materion o ran technoleg oedd ddim yn hygyrch. Yn ein gwaith ymchwil fe ddarganfuon ni fod llawer o bobl ifanc eisiau bod yn fwy eco-gyfeillgar, ond yn cael trafferth oherwydd diogi neu ddiffyg dealltwriaeth. Roedd yr adolygiad o'r llenyddiaeth yn cydnabod y gall fod yn anodd rhoi newidiadau eco-gyfeillgar ar waith ym mywyd rhywun, ac mae hynny'n cael ei adlewyrchu yn yr ymatebion gan bobl ifanc.

Roedd hygyrchedd hefyd yn bwnc oedd yn codi llawer ar draws ein gwaith ymchwil. Roedd y bobl ifanc yn cwyno bod ymddwyn yn eco-gyfeillgar yn anodd, gan ei fod yn aml ddim yn hygyrch, yn enwedig i bobl ifanc; fe

ddwedson nhw tase fe'n hawdd, 'byddai pawb yn gwneud e'.

Cost yw pwnc arall y soniodd yr adolygiad o'r llenyddiaeth amdano, a dywedodd y gallai fod yn anodd cael gafael ar yr wybodaeth sy'n caniatáu i bobl ifanc wneud dewisiadau cost-effeithiol, a sut mae dewisiadau cynaliadwy fel arfer yn fwy costus. Yn ein gwaith ymchwil, fe ddarganfuon ni fod cost yn cael ei nodi fel problem i bobl ifanc yn ein hadran 'arian', lle roedden nhw'n dweud bod 'cynnyrch organig yn fwy drud'.

Mae addysg yn ffactor na wnaethon ni sôn yn benodol amdani fel rhwystr, ond soniwyd amdani'n gyson fel rhwystr ar draws ein grwpiau ffocws a'n harolygon. Roedd pobl ifanc yn beirniadu eu haddysg, ac yn dweud bod y system ysgol yn canolbwyntio cymaint ar ailgylchu, a dim digon ar addysgu pobl ifanc ar faterion mwy cymhleth. Dywedodd yr adolygiad o'r llenyddiaeth fod gwybodaeth yn allweddol i wneud dewisiadau cynaliadwy; mae'n eglur bod y bobl ifanc yn cytuno gyda hyn, a bod ganddyn nhw awydd i dderbyn mwy o addysg.

## Arian

Daeth ymatebion tebyg trwy lens dosbarth ac economeg.



**'Mae cynnyrch organig yn fwy drud',**



**'Mae'n cyfyngu ar beth galla i wneud i helpu'**



**'Arian - nid pawb sy'n gallu fforddio paneli solar.'**

Dywedodd pobl ifanc hefyd, pan fydd pethau'n effeithio ar yr economi bod 'hynny'n effeithio arnon ni'. Mae hyn yn enghraifft o bobl ifanc yn bod yn ymwybodol o faterion yn yr economi, fel yr argyfwng costau byw.

## Cyfoedion a theulu

- Cyfeiriodd rhai at bwysau cyfoedion, a'r dylanwad sy'n gallu bod arnyn nhw i ollwng sbwriel neu wneud gweithgareddau eraill sydd ddim yn eco-gyfeillgar.
- Soniodd rhai wrthyn ni am deimlo'n ynysig oddi wrth eu cyfoedion oherwydd eu hagwedd amgylcheddol, **'does dim ffrindiau'n helpu fi'**.
- Yn yr arolwg, fe sonion nhw am sut gall pwysau cyfoedion atal pobl rhag bod yn eco-gyfeillgar, ond bod ffrindiau'n gallu bod yn ddylanwad cadarnhaol hefyd.
- Rhwystr arall mae pobl ifanc yn ei brofi yw bod eu rhieni a'u teulu ddim yn eco-gyfeillgar, a'r ffaith ein bod ni'n dibynnu ar danwydd ffosil am lawer o bethau yn ein bywydau beunyddiol.

## Ymddygiad a chyfleuster

- Disgrifion nhw hefyd wynebu caledi a rhwystrau i fod yn eco-gyfeillgar. **'Anghofrwydd', 'Dyw rhai pobl ddim yn deall', 'Methu trafferthu'**.
- Sonion nhw am sut gall gweithredu amgylcheddol fod yn anodd, **'tase fe'n hawdd byddai unrhyw un yn gwneud e' a sut 'mae'n anghyfleus'**, a dyna pam dyw pawb ddim yn rhan o hyn.

## Agweddau a blaenoriaethau

- Soniodd rhai o'r bobl ifanc am fod yn eco-gyfeillgar trwy lens eu crefydd.
- Roedd agwedd rhai pobl ifanc yn fwy negyddol, ac roedden nhw'n disgrifio gofal am yr amgylchedd fel **'gohirio'r anochel'**. Mae rhai hefyd wedi cymharu ein gwlad ni ag eraill, gan ddweud bod lleoedd eraill mewn sefyllfa waeth, felly ddylen ni ddim pryderu am ein materion amgylcheddol. Amlygodd llawer hefyd fod ganddyn nhw flaenoriaethau eraill, **'gormod o bethau eraill yn mynd ymlaen'**.
- Mae'r rhan fwyaf o brofiadau sy'n cael eu disgrifio yn yr adran hon yn negyddol, fel byddech chi'n disgwyl gan mai Rhwystrau yw'r teitl.
- Cafodd y bobl ifanc eu hannog i ateb ar sail eu profiadau a'u barn eu hunain, ond rhaid i ni fod yn ymwybodol bod eu hamgylchedd yn effeithio'n anochel ar bobl ifanc.
- Ychydig o bobl ifanc ddewisodd dynnu lluniau i ddangos eu barn ar y pwnc yma; efallai bod hynny oherwydd bod y pynciau'n fwy cymhleth, felly mae'n anodd defnyddio llun syml i'w disgrifio, ond efallai ei fod hefyd oherwydd oed y bobl ifanc dan sylw.

# Beth ddarganfuon ni yn ein harolwg am rwystrau

**Beth sy'n dy atal di rhag bod yn eco-gyfeillgar? – Cymhariaeth oed**

## Methu gwybod beth sy'n eco-gyfeillgar

Hŷn 42%  
Iau 37%

## Dim digon o opsiynau eco

Hŷn 35%  
Iau 32%

## Cost

Hŷn 52%  
Iau 27%

## Bod yn rhy ifanc

Hŷn 32%  
Iau 23%

## Ffrindiau a theulu

Hŷn 15%  
Iau 13%

## Ydy costau byw yn rhwystr?

Mae rhai gwahaniaethau clir iawn yma yn ôl oed

“Ydyn” – iau 19%, hŷn 61%

“Nac ydyn” – iau 31%, hŷn 14%

“Ddim yn gwybod” – iau 48%, hŷn 23%

Gogledd Cymru		Canolbarth Cymru	
Rwy'n cael trafferth gwybod pa opsiwn sy'n eco-gyfeillgar	37	Rwy'n cael trafferth gwybod pa opsiwn sy'n eco-gyfeillgar	44
Mae cynnyrch eco-gyfeillgar yn rhy ddud	31	Mae cynnyrch eco-gyfeillgar yn rhy ddud	35
Dyw fy ffrindiau/nheulu ddim yn deall	14	Dyw fy ffrindiau/nheulu ddim yn deall	9
Bod yn rhy ifanc i gael cynnyrch, gwasanaethau neu wybodaeth	24	Bod yn rhy ifanc i gael cynnyrch, gwasanaethau neu wybodaeth	26
Gorllewin Cymru		De Cymru	
Rwy'n cael trafferth gwybod pa opsiwn sy'n eco-gyfeillgar	33	Rwy'n cael trafferth gwybod pa opsiwn sy'n eco-gyfeillgar	41
Mae cynnyrch eco-gyfeillgar yn rhy ddud	41	Mae cynnyrch eco-gyfeillgar yn rhy ddud	47
Dyw fy ffrindiau/nheulu ddim yn deall	7	Dyw fy ffrindiau/nheulu ddim yn deall	15
Bod yn rhy ifanc i gael cynnyrch, gwasanaethau neu wybodaeth	38	Bod yn rhy ifanc i gael cynnyrch, gwasanaethau neu wybodaeth	30

Dyma rai o'r rhesymau pam dywedodd pobl yn yr arolwg fod cost yn rhwystr:

- ▲ Mae pethau eco-gyfeillgar yn ddud
- ▲ Mae cynnyrch rhad yn niweidio'r amgylchedd
- ▲ Mae chwyddiant/cyflogau isel yn cael effaith
- ▲ Gwneud pethau'n fwy fforddiadwy a hygyrch, e.e. Opsiynau rhatach

Rhoddodd y bobl a atebodd na i'r cwestiwn yma y rhesymau canlynol am eu hateb:

- ▲ Mae cost yn amherthnasol
- ▲ Dyw pobl ddim eisiau bod yn eco-gyfeillgar
- ▲ Does dim llawer o opsiynau eco-gyfeillgar

## Casgliad

Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yng Nghymru eisiau gofalu am ein planed ac eisiau bod yn fwy eco-gyfeillgar, ond mae yna rwystrau yn eu ffordd.

Roedden ni eisiau gwybod ydy costau byw yn rhwystro pobl ifanc rhag bod yn eco-gyfeillgar, ac rydyn ni'n meddwl bod ein hymchwil yn dangos bod hynny'n wir. Fe welson ni hefyd fod lluo o rwystrau eraill yn eu hatal, gan gynnwys addysg, mynediad at opsiynau eco-gyfeillgar, a'r gallu i fod yn eco-gyfeillgar oherwydd eu hoed a'u diffyg annibyniaeth.

Ar ôl darganfod yr holl wybodaeth yma, rydyn ni eisiau i'r Llywodraeth ac eraill weithredu i hybu mwy o weithredu eco-gyfeillgar gan bobl ifanc.

Rydyn ni'n meddwl bydd yr argymhellion canlynol yn helpu pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru i fod yn fwy amgylcheddol gyfeillgar.



# Beth rydyn ni'n meddwl ddylai ddigwydd nesaf



## Mae pobl ifanc eisiau mwy o lais.

Dylai'r llywodraeth a sefydliadau mawr roi mwy o gyfleoedd iddyn nhw ddweud eu dweud, a gwranddo mwy arnyn nhw.




## Dylai'r cyfryngau cymdeithasol gael eu defnyddio i rannu negeseuon positif

am argyfwng yr hinsawdd a gwybodaeth mae pobl ifanc yn ei deall.



## Mae rhai ysgolion a cholegau yn dysgu materion amgylcheddol yn dda ac yn mynd i fanylder. Ond dyw eraill ddim yn gwneud llawer, neu mae beth

maen nhw'n ei wneud yn ddiflas, yn ailadroddus, ac weithiau'n cael ei feirniadu gan bobl ifanc. Dylai pethau fod yn fwy cyson, gydag ysgolion yn dysgu oddi wrth ei gilydd am y ffyrdd gorau o addysgu plant am bethau eco-gyfeillgar mewn ffordd fydd yn ennyn eu diddordeb. Dylai'r pwnc yma fod i bawb, nid dim ond yr eco-gyngor.



## Dylai fod opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus gwell

ar draws Cymru, fydd yn annog pobl ifanc i'w defnyddio. Dylai fod yn rhatach neu ar gael am ddim.



## Dylai deddfwriaeth a threthi gael eu defnyddio

i annog pobl i beidio â phrynu gormod o ffasiwn ffwrdd â hi. Dylai fod mwy o gefnogaeth i sefydliadau sy'n gwerthu dillad ail-law neu gynaliadwy. Dylai'r rhain ddim bod yn opsiynau drud. Hefyd dylai fod mwy o addysg ar y mater yma.



Dylai'r Llywodraeth roi cymhorthdal i opsiynau mwy eco-gyfeillgar, fel bod pawb yn gallu fforddio bod yn llesol i'r amgylchedd.

**Hefyd gallai ffermwyr dderbyn cymhorthdal am dyfu pethau mewn ffordd sy'n llesol i'r amgylchedd.**



## Hefyd gallai fod mwy o reoleiddio ar

**fewnforio nwyddau**, fel cig eidion o Brasil, i dorri nôl ar allyriadau cludo nwyddau a datgoedwigo. Ddylai hynny ddim digwydd ar draul y cwsmer, fodd bynnag, gan y dylai mwy o opsiynau lleol gael eu darparu ar ffurf cig eidion lleol neu lysiau ffres, er enghraifft.



## Dylai prosiectau amgylcheddol lleol dderbyn

**mwy o gyllid**, er mwyn cyrraedd mwy o blant a phobl ifanc. Dylai fod mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc wneud mwy o weithgareddau eco-gyfeillgar fel codi sbwriel.



**Darparu mwy o finiau ailgylchu mewn mannau cyhoeddus.** Hefyd dylai fod gan gynghorau'r seilwaith cywir, fel bod yr eitemau yn cael eu hailgylchu a bod y sbwriel yn cael ei waredu mewn modd cynaliadwy.



**Cynyddu nifer y llwybrau beicio a cherdded diogel,** er mwyn annog mwy o bobl i feicio neu gerdded, yn hytrach na gyrru.



**Dylai mwy o ymchwil gael ei wneud ar ba mor bwysig yw gofalu am yr amgylchedd i bobl ifanc.** Hefyd sut mae paratoi pobl ar gyfer digwyddiadau tywydd neu argyfyngau hinsawdd mewn modd sydd ddim yn creu gorbryder ynghylch yr hinsawdd. Dylai rhagor o ymchwil gael ei wneud gyda phoblogaethau sydd ddim eisoes yn ymwneud â'r materion hyn. Byddai hefyd yn ddiddorol gweld ydy pobl ifanc mewn cenhedloedd eraill yn teimlo'r un fath.



**Hybu labelu gwell ar gynnyrch o ran hygyrddedd eco-gyfeillgar.** Cynnwys gwybodaeth am sut mae'r cynnyrch wedi cael effaith ar yr amgylchedd.



**Dylai cymhellion gael eu cyflwyno i annog manwerthwyr i leihau pecynnu plastig,** a buddsoddi mwy mewn chwilio am ddewisiadau amgen cynaliadwy.

## Beth rydyn ni'n meddwl oedd yn dda am ein gwaith ymchwil – ein cryfderau

- ★ Fe gawson ni lwyth o ymatebion, ac rydyn ni'n meddwl bod hynny'n golygu bod yr ymchwil yn ddilys. Fe chwalon ni'n targedau gwreiddiol yn rhacs!
- ★ Bu pobl yn diolch i ni yn yr arolwg. Mae hynny'n dangos eu bod wedi hoffi cymryd rhan, neu eu bod yn meddwl bod hyn yn bwysig.
- ★ Fe gawson ni ymatebion o'r rhan fwyaf o Gymru, gydag ystod eang o bobl ifanc rhwng 7 ac 18 oed.
- ★ Fe gawson ni gyllid hael, oedd yn help i ni fedru gwneud penderfyniadau. Roedden ni'n gallu dewis pa dulliau a chwestiynau bynnag roedden ni'n meddwl fyddai'n dda.
- ★ Rydyn ni'n meddwl bod dewis dulliau cymysg wedi bod yn dda, oherwydd manteision y ddau opsiwn. Mae graffiau ac atebion manwl ar gael i ni yn y data.
- ★ Roedd yr arolwg yn hawdd, yn gyflym, yn rhad ac yn hwylus i bobl â rhwystrau trafndiaeth ei ateb. Roedd llai o bwysau i bobl ateb, a gallen nhw wneud hynny yn eu hamser eu hunain. Roedd ein holiaduron yn ddwyieithog.
- ★ Mewn grŵp ffocws gall pobl siarad yn fwy rhydd am eu hatebion a gallwch chi ofyn mwy o gwestiynau dilynol. Gallwch chi gael rhagor o fanylion. Rydyn ni'n meddwl eich bod chi'n fwy tebygol o gael ateb gwir nag mewn arolwg lle gallai pobl frysio trwyddo.
- ★ Oherwydd mai pobl ifanc oedd yn gwneud y gwaith ymchwil, roedden ni'n greadigol ac yn llawn dychymyg. Tase'r ymchwil bob amser yn cael ei wneud gan oedolion, efallai bydden nhw'n dal i ofyn yr un pethau ac yn cael yr un canlyniadau.
- ★ Gallai pobl ifanc eraill deimlo'n fwy cyfforddus yn siarad â ni, yn hytrach nag oedolyn.
- ★ Fe wnaethon ni ddysgu llawer o wahanol bethau am yr amgylchedd, diogelu a gwaith ymchwil. Fe gawson ni dystysgrif am y pethau ddysgon ni.
- ★ Fe gawson ni lawer o weithgareddau hefyd – fe aethon ni i Glasgow; cawson ni sesiwn breswyl; ac fe aethon ni i ddigwyddiad economi gylchol cyffrous i drafod ein canfyddiadau cynnar.
- ★ Y rhan fwyaf o'r amser fe gawson ni hwyl, ond roedd peth ohono fe'n waith caled!
- ★ Roedden ni'n gallu pleidleisio i ddweud pryd roedden ni ar gael ar gyfer sesiynau. Felly roedden ni'n gallu dewis y dyddiad mwyaf poblogaidd.

# Sut gallai ein gwaith ymchwil fod yn well ein cyfyngiadau

Oherwydd y pwnc, rydyn ni'n meddwl efallai nad oedd pobl yn onest yn eu hatebion. Efallai byddai pobl ddim yn cyfaddef eu bod nhw ddim yn ailgylchu, neu eu bod nhw'n gollwng sbwriel, er enghraifft. Mae hynny'n golygu ein bod ni ddim yn gwybod beth yn union mae pobl ifanc yn gwneud i fod yn eco-gyfeillgar, ond yn lle hynny mae rhaid i ni ddibynnu ar beth ddwedson nhw maen nhw'n gwneud.

Ar y dechrau roedd problem gyda'r arolwg, a bu rhaid i ni newid geiriad rhai o'r cwestiynau. Felly, gallen ni fod wedi'i brofi'n fwy trylwyr. Gwnaeth rhai pobl y sylw eu bod nhw ddim yn deall yr arolwg, ond fe gawson ni lawer o ymatebion, ac roedden nhw'n gwneud synnwyr, felly gobeithio bod y rhan fwyaf o bobl yn deall.

Oherwydd trosiant a salwch staff, lwyddon ni ddim i wneud yr holl grwpiau ffocws roedden ni wedi bwriadu. Roedden ni wedi cynllunio grwpiau ffocws yng Ngogledd Cymru, ond fe fethon ni fynd iddyn nhw am y rheswm yma.

Roedd gennym ni berson allanol cyson i'n helpu, felly roedden nhw'n gallu cadw golwg ar bethau.

Roedd gennym ni fwy o bobl iau na hŷn yn y grwpiau ffocws, ond fe gwblhaodd mwy o bobl ifanc hŷn yr arolwg, felly falle bod y cyfan yn cydbwysu.

Y terfyn oed uchaf oedd 18, ac efallai gallen ni fod wedi cael rhagor o wybodaeth tasen ni wedi codi hynny i 25.

Dim ond un person yn ein tîm oedd yn siarad Cymraeg, felly roedd hynny'n cyfyngu ar natur ddwyieithog y grwpiau ffocws.

Roedd y rhan fwyaf o'r bobl y buon ni'n siarad â nhw yn y grwpiau ffocws yn wyn, ac er i ni gael mwy o gynrychiolaeth yn yr ymatebion i'r arolwg, efallai bod prinder gwybodaeth ddyfnach am wahaniaethau

76 diwylliannol a safbwyntiau amgen.

## Diolchiadau

Hoffen ni ddiolch i Bethany Turner am ei holl waith caled cyn iddi adael y sefydliad. Bu hi'n trefnu ac yn monitro'r grwpiau ffocws ac yn helpu i ddadansoddi'r arolwg. Bu'n helpu gyda'r hyfforddiant ac wrth weithio ar y cwestiynau a'r grwpiau ffocws prawf.

Hoffen ni ddiolch hefyd i Elaine Speyer am yr holl waith caled a chefnogaeth roddodd hi i ni. Fe wnaeth hi ein helpu i benderfynu'n derfynol ar y pwnc a chwestiwn yr ymchwil, a'n dysgu am ddulliau ymchwil a moeseg. Bu gyda ni o'r dechrau i'r diwedd (yn wahanol i Bethany!) (Dim ond jocan!)

Fe wnaeth Rachel Beddoe helpu i ddadansoddi holl ddata'r arolwg. Fe wnaeth ein helpu i weld y gwahaniaethau rhwng ardaloedd yng Nghymru a'r gwahanol arolygon. Fe wnaeth hi helpu hefyd gyda'r arolwg i blant iau.

Mae Emily Ruck wedi helpu i gynnal awyrgylch positif trwy ganu gyda ni yn y sesiwn breswyl a chwarae gêmâu gyda ni. Hi drefnodd y cyfarfodydd a chadw mewn cysylltiad â ni i wneud yn siŵr bod pawb ohonon ni'n cyrraedd yn brydlon. Hi hefyd fu'n trefnu ein credydau amser tempo, ac yn mynd â ni i Glasgow.

Mike Mainwaring a'i ddetholiad diddorol o fwyd, yn ogystal â seleri a

hwmws. Fe wnaeth e helpu ni i ddod dros golli Bethany! Bu e'n helpu ni gyda'r dadansoddiad thematig ac yn rhoi lifftiau i ni. Fe hefyd oedd yn rhoi hwb i forâl y tîm.

Diolch, Kate Thomas, am reoli'r prosiect a dod i'r sesiwn breswyl.


Diolch, James Fisher o Fisher Film, oedd yn ddyn camera i ni. Fe wnaeth e helpu ni trwy barchu ein dymuniadau a sicrhau bod gennym ni luniau a fideos da, yn ogystal â rhoi help llaw i'r tîm. Fe wnaeth e hefyd ein helpu ni i fwyta'r creision, y mefus a'r danteithion eraill!

Fe wnaeth Fran Hoey helpu ni ar y dechrau i drefnu'r hyfforddiant.


Fe wnaeth Paula Timms helpu ni i sicrhau cyllid i gyhwyn ar y prosiect.

Cronfa Gwybodaeth Gymunedol, a dalodd am ein prosiect a helpu i sicrhau ei fod yn digwydd.

Rydyn ni hefyd eisiau diolch i'r holl blant a phobl ifanc a fu'n cymryd rhan yn y gwaith ymchwil yma ac yn rhannu eu barn gyda ni. Fe gawson ni lawer o hwyl yn cwrdd â rhai ohonoch chi yn y grwpiau ffocws ac yn edrych trwy eich holl waith celf. Roedd yn ddiddorol iawn gweld eich atebion yn yr arolwg.







PLANT YNG NGHYMRU  
CHILDREN IN WALES